OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 585 (Cy. 133)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso dros dro ddarpariaethau penodol sy'n ymwneud â deiliadaeth swydd aelodau o fyrddau a phwyllgorau cyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ymdrin â'r amharu ar apwyntiadau yn ystod y pandemig COVID-19, er mwyn galluogi aelodau o fyrddau a phwyllgorau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth i barhau yn y swydd.

Mae rheoliad 2 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelodau ac aelodau cyswllt Byrddau Iechyd Lleol fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.

Mae rheoliad 3 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009.

Mae rheoliad 4 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009.

Mae rheoliad 5 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012.

Mae rheoliad 6 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 7 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelod nad yw'n swyddog o Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017.

Mae rheoliad 8 yn galluogi unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r addasiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, i barhau â'i gyfnod swydd ac i adael y swydd yn unol â thelerau ei benodiad neu ei ailbenodiad ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol, pan fydd datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd yn peidio â chael effaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 585 (Cy. 133)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *5 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (f) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 iddi.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y cyfnod perthnasol” yw’r cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r Rheoliadau hyn i rym ac sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

**Deiliadaeth swydd aelod ac aelod cyswllt o Fyrddau Iechyd Lleol**

**2.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(5) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a

(**1**) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniad o “regulations”.

Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(**1**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

### Deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

**3.** Nid yw rheoliad 14(3) o Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**2**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

### Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion

**4.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009(**3**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

### Deiliadaeth swydd cadeirydd neu is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre

**5.** Nid yw rheoliad 8(5) o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**4**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

### Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

**6.** Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014(**5**) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

### Deiliadaeth swydd aelodau nad ydynt yn swyddogion o Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**7.** Yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017(**6**), nid yw'r geiriau "ond ni chaniateir i berson fod yn aelod nad yw'n swyddog am gyfnod cyfan sy'n hwy nag 8 mlynedd" yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

---

(**1**) O.S. 2009/779 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2009/3097 (Cy. 270), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2014/566 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2017/909 (Cy. 221).

### Diwedd y cyfnod perthnasol

**8.** Caiff unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 2 i 7 o'r Rheoliadau hyn, fel y'u haddesir, barhau i ddal a gadael y swydd, ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, yn unol â thelerau penodiad neu ailbenodiad y person hwnnw.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
10 Mehefin 2020